# Y SENEDD

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 15.00 ar 24 Ebrill 2024, yn y Brif Neuadd, Adeilad Gwleidyddiaeth Ryngwladol.**

| | |
|---|---|
| Aelodau â phleidlais: | Yr Athro Jon Timmis, Is-Ganghellor; Dr Otar Akanyeti; Dr Stephen Atherton; Mr Tom Bates; Dr Hanna Binks; Yr Athro Hazel Davey; Dr Sarah Davies; Professor Iain Donnison; Dr Patrick Finney; Mr Jonathan Fry, Cadeirydd Cangen y Coleg Cymraeg Cenedlaethol; Yr Athro Angela Hatton, Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil, Cyfnewid Gwybodaeth ac Arloesi); Yr Athro Mererid Hopwood; Dr Aloysius Igboekwu; Yr Athro Anwen Jones, Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol); Dr Ffion Jones; Dr Alex Mangold; Yr Athro Louise Marshall; Dr Julie Mathias; Ms Jen Phipps; Dr Alexander Pitchford; Professor Phillipp Schofield; Miss Anna Simpkins, Swyddog Materion Academaidd UMAber; Yr Athro Tim Woods, Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyriwr). |
| Aelodau heb bleidlais: | Yr Athro Iain Barber; Yr Athro Simon Cox; Dr Thomas Jansen; Dr Anoush Simon; Dr Steve Thompson; a Dr Lucy Trotter. |
| Yn gweinyddu: | Mr Trevor Pearce, Cofrestrydd Academaidd Dros Dro; Dr Gethin Rhys, Dirprwy Gofrestrydd; Dr Gwawr Taylor, Ysgrifennydd y Brifysgol. |

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan yr Athro Andrew Evans; Yr Athro Nigel Holt; Ms Jackie Sayce; Yr Athro Neil Glasser, Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran Gwyddorau Daear a Bywyd); Dr Kim Knowles; Yr Athro Qiang Chen, Mr Bayanda Vundamina, Llywydd Undeb y Myfyrwyr. Miss Elain Gwynedd, Llywydd UMCA President; Yr Athro Helen Roberts, Cyfarwyddwr Rhagoriaeth Ymchwil ac Effaith.

## 27. GWRTHDARO BUDDIANNAU

Ni chafwyd datganiad ynglŷn â gwrthdaro buddiannau yng nghyswllt y materion i'w trafod yn ystod y cyfarfod.

## 28. COFNODION Y CYFARFODYDD BLAENOROL

DERBYNIWYD

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Tachwedd 2023 (SEN2223-033).

PENDERFYNWYD

Cadarnhau bod y cofnodion yn gywir.

## 29. MATERION YN CODI O'R COFNODION

DERBYNIWYD

Cofnodydd yn nodi’r cynnydd a wnaed wrth symud yn eu blaen y penderfyniadau a’r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod diweddaraf y Senedd, ac unrhyw gamau na chawsant eu cyflawni o gyfarfodydd blaenorol (SEN2324-034).

NODWYD

Y diweddariadau a roddwyd yn y cofnodydd.

1. Cadair Aberystwyth mewn Gwleidyddiaeth Ryngwladol: bydd Panel Wilson yn ymgynnull i gadarnhau'r ailenwi ac yn adrodd i gyfarfod nesaf y Senedd.

2. Micro-gymwysterau: nodwyd y byddai cynlluniau newydd yn cael eu hoedi am y tro, a daethpwyd â’r gweithredu i ben.

**30. ADRODDIAD YR IS-GANGHELLOR**

DERBYNIWYD

Adroddiad yr Is-Ganghellor (SEN2324-035)

NODWYD

1. Roedd tair prif adran i'r adroddiad: adroddiad amlygu; adroddiad cynllunio a denu myfyrwyr; ac adroddiad ynglŷn â chyfathrebu

2. Ni chafodd y ddarpariaeth Addysg Gychwynnol i Athrawon ei hail-achredu, a nodwyd y camau sydd ar y gweill i weithio gyda myfyrwyr presennol, ymgeiswyr a’r ysgolion partner.

3. Y sefyllfa heriol o ran denu myfyrwyr, yn enwedig felly myfyrwyr rhyngwladol ac uwchraddedigion ar gyrsiau a ddysgir, a'r disgwyl y bydd y broses glirio yn un hynod gystadleuol am 2024/25.

4. Mae’r Brifysgol yn dal i weithredu mewn sefyllfa ariannol anodd iawn yn dilyn nifer o symudiadau anffafriol a phwysau costau. Byddai’r Weithrediaeth yn parhau i gadw golwg ofalus ar y sefyllfa a chadw rheolaeth ar y gyllideb i'r lefelau y cytunodd y Cyngor arnynt.

6. Yn ystod mis Chwefror, roedd dirprwyaeth o'r Brifysgol wedi derbyn Gwobr Pen-blwydd y Frenhines am ragoriaeth, arloesedd a gwaith eithriadol a oedd o fudd i'r byd ehangach. Mae'r Wobr yn cydnabod ymchwil ac arbenigedd unigryw tîm o barasitolegwyr amaethyddol a biolegol, dan arweiniad yr Athro Karl Hoffman yn Adran y Gwyddorau Bywyd.

7. Y newid a ragwelwyd i reoliadau Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024/25 a fyddai'n cynyddu'r cap ar ffioedd dysgu i £9,250. Byddai cadarnhad o lefelau ffioedd Prifysgol Aberystwyth am 2024/25 yn dilyn.

8. Ar ôl ei sefydlu ym mis Medi 2023 byddai’r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, y corff rheoleiddio newydd, yn gwbl weithredol o 1 Awst 2024 ymlaen. Byddai cylch gwaith estynedig y corff newydd yn cynorthwyo i lywio meddylfryd strategol y Brifysgol, yn unol â Datganiad Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.

**31. Y PWYLLGOR YMCHWIL AC ARLOESI**

DERBYNIWYD

1. Adroddiad gan Lisa Fisher, Swyddog Uniondeb a Moeseg Ymchwil (SEN2324-036).

NODWYD

2. Y canlyniadau chwarterol ynglŷn â chyllid ymchwil, sy'n dangos cynnydd yng nghyfaint, gwerth, a chyfradd adfer grantiau ymchwil.

3. Llongyfarchiadau'r Senedd i'r Athro Qiang Shen, a fydd yn derbyn Gwobr Arloeswr Systemau Niwlog 2024 yng Nghyngres y Byd, Cymdeithas Deallusrwydd Gyfrifiadurol IEEE ym mis Gorffennaf.

## 32. Y BWRDD ACADEMAIDD

### 32.1 Adroddiad gan y Bwrdd Academaidd

DERBYNIWYD

1. Adroddiad gan Kim Bradick, Dirprwy Gofrestrydd (SEN2324-037).

NODWYD

2. Amserlen yr Arolwg Gwella Ansawdd, ac ymweliad arfaethedig yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ag Aberystwyth yn 2027/28.

3. Y gwaith sy'n mynd rhagddo i wreiddio cynaliadwyedd yn y cwricwlwm trwy strategaeth ledled y brifysgol.

4. Roedd disgwyl i drefn ariannu newydd ar gyfer Dysgu Gydol Oes gael ei gweithredu i fyfyrwyr sy'n hanu o Loegr o fis Medi 2025, ond heb unrhyw ymgynghoriadau cyfredol gan y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, roedd yn annhebygol o effeithio ar Gymru yn y dyfodol rhagweladwy.

### 32.2 Polisi Arfaethedig ar Addasrwydd i Sefyll

DERBYNIWYD

1. Adroddiad gan Trevor Pearce, Cofrestrydd Academaidd Dros Dro (SEN2324-038)

NODWYD

2. Y cynigion, a ystyriwyd yn flaenorol gan y Bwrdd Academaidd, a gynlluniwyd i ddisodli'r prosesau presennol ynghylch amgylchiadau arbennig ar gyfer yr holl asesiadau. O dan y drefn 'Addas i Sefyll', byddai myfyrwyr sy'n datgan eu bod yn anaddas yn cael cyfle i ohirio cael eu hasesu tan y dyddiad posibl nesaf, heb fod angen rhoi tystiolaeth annibynnol o amgylchiadau lliniaru.

3. Croesawodd yr aelodau'r nod cyffredinol o leihau'r baich ar fyfyrwyr a chael mwy o gysondeb i ganlyniadau. Byddai cymeradwyaeth derfynol yn amodol ar gynnal asesiadau effaith ar gydraddoldeb ac ar y Gymraeg, a chael eglurhad pellach ar yr agweddau canlynol:

   (a) Cyflawni canlyniadau dysgu lle nad oedd myfyrwyr yn addas i sefyll cydrannau unigol.

(b) Unrhyw effaith ar y polisi presennol ynghylch estyniadau gwaith cwrs.

(c) Asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb ac ar y Gymraeg

(d) Modelu effaith ar nifer yr asesiadau sy'n cael eu hailsefyll ac adolygiad o'r cap ar ailsefyll yn yr haf.

(e) Yr effaith ar asesiadau grŵp, asesiadau ymarferol ac asesiadau parhaus.

(f) Statws asesiadau gwaith cwrs drafft yn achos myfyrwyr sy'n datgan eu bod yn anaddas i sefyll.

(g) Datblygu canllawiau a chyfathrebiadau i staff a myfyrwyr, a sefydlu grŵp gweithredu.

PENDERFYNWYD

4. Croesawu egwyddor gyffredinol 'Addas i Sefyll', yn amodol ar eglurhad pellach o feysydd penodol a phenderfyniad terfynol gan y Senedd. [GWEITHREDU:Y Cofrestrydd Academaidd]

**32.3 Graddau Atodol**

DERBYNIWYD

1. Adroddiad gan Kim Bradick, Dirprwy Gofrestrydd (SEN2324-039)

NODWYD

2. Y cynnig i ffurfioli'r arfer gweithredol presennol ar gyfer graddau atodol, sef y dylai myfyrwyr astudio 120 credyd ar Lefel 6 a bod angen pasio 100 credyd i fod yn gymwys am y dyfarniad. Dim ond credydau a astudiwyd ym Mhrifysgol Aberystwyth fyddai'n cyfrif tuag at gyfrifo'r dyfarniad.

PENDERFYNWYD

3. Cymeradwyo'r rheoliadau a'r confensiynau arholi diwygiedig. [**GWEITHREDU:** y Gofrestrfa Academaidd i ddiweddaru'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd.]

**33. Y BWRDD MARCHNATA A DENU A DERBYN MYFYRWYR**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Kylie Evans, Pennaeth Gweithrediadau Derbyn Myfyrwyr (SEN2324-040)

NODWYD

Y gwelliant yng nghyfraddau cadw myfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig yn ystod y flwyddyn bresennol, a datblygiad strategaeth newydd ar gyfer cadw myfyrwyr.

**34. BWRDD Y DDARPARIAETH GYDWEITHREDIADOL**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan David Moyle, Cofrestrydd Cynorthwyol (SEN2324-041)

**35. BWRDD ARHOLI'R SENEDD**

DERBYNIWYD

Papur gan Trevor Pearce, Cofrestrydd Academaidd Dros Dro (SEN2324-042)

NODWYD

Y newidiadau a gynigir i gylch gorchwyl Bwrdd Arholi'r Senedd, gyda'r nod o wneud prosesau'r arholiadau yn fwy effeithlon trwy fod yn fwy hyblyg o ran gofynion presenoldeb yn y byrddau.

PENDERFYNWYD

Cymeradwyo'r diwygiad a gynigiwyd i gylch gorchwyl Bwrdd Arholi'r Senedd. (Gweithredu: y Cofrestrydd Academaidd)

**36. CANGEN PRIFYSGOL ABERYSTWYTH Y COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Mr Jonathan Fry, Cadeirydd y Gangen (SEN2324-043)

**37. GRANTIAU YMCHWIL**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil, Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi) (SEN2324-044).

**38. DYRANNU LLWYTH GWAITH**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cofrestrydd Academaidd Dros Dro (SEN2324-045)

**39. ADRODDIADAU O IS-BWYLLGORAU**

DERBYNIWYD: Cofnodion o'r pwyllgorau canlynol (SEN2324-046):

1. Y Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi (30 Tachwedd 2023 a 26 Chwefror 2024);
2. Y Bwrdd Academaidd (7 Mawrth 2024)
3. Bwrdd Marchnata a Denu a Derbyn Myfyrwyr (28 Tachwedd 2023 a 28 Chwefror 2024)
4. Bwrdd y Ddarpariaeth Gydweithrediadol (4 Mawrth 2024)
5. Y Cyngor (27 Tachwedd 2023 a 19 Ionawr 2024).

**40. UNRHYW FATER ARALL, AROLWG O'R CYFARFOD, A MATERION YN Y DYFODOL**

<u>Ffarwel</u>

Diolchodd y Senedd i Mr Trevor Pearce a oedd yn bresennol yn ei gyfarfod olaf o'r Senedd yn swydd Cofrestrydd Academaidd Dros Dro, cyn iddo ymgymryd â swydd newydd.